328 - 1001

DP 968 103-07

Y Gwir Anrh/Rt Hon Rhodri Morgan AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref: MB/FM/0755/06

Alun Ffred Jones AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

22 Rhagfyr 2006

Annwyl Alun Ffred

**Rhaglenni Cydgyfeirio 2007 - 2013**

Fe nodais ar 5 Rhagfyr y buaswn yn paratoi ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn atodol i Gwestiwn Llafar y Cynulliad OAQ 2130 ynglŷn â strwythur a gweithredu'r Rhaglenni Cydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar y cynlluniau manwl ar gyfer defnyddio Cynllun Gofodol Cymru a Fframweithiau Strategol i helpu sicrhau for adnoddau Cydgyfeirio yn cael eu canolbwyntio mewn ffyrdd fydd yn mynd i'r afael a'r anghenion a'r cyfleoedd a chael yr effaith fwyaf. 'Rydym am ddefnyddio'r arbenigedd a gasglwyd yn ystod cyfnod y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2000 - 2006. Mae'n fwriad gennym, er hynny, i sicrhau fod ein cynlluniau gweithredu wedi eu hintegreiddio a'u bod yn cynorthwyo i weithredu ein hamcanion strategol i Orllewin Cymru a'r Cymoedd yn unol â strategaeth Lisboa ar gyfer Cynnydd a Swyddi.

'Rydym felly, yn bwriadu cael Fframweithiau Strategol ar gyfer Adfywio Cynaliadwy ym mhob Ardal Cynllun Gofodol. Fe fydd y fframweithiau yma'n cael eu cydlynu gan y Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol. Mae ein partneriaid wedi croesawu ein cynlluniau i sefydlu, gyda chyllid Cymorth Technegol o Gronfeydd Ewropeaidd, Timau Cynorthwyo Ewropeaidd Gofodol a fyddai'n gweithredu ar lefel ardal Cynllun Gofodol. Fe fydd y Timau'n helpu i sicrhau fod yr arbenigedd presennol yn cael ei ddefnyddio i'w lawn effaith. Fe fydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, â chynrychiolaeth o'r holl sectorau allweddol yn cael ei sefydlu'n fuan i ddatblygu'r cynlluniau yma yn bellach.

Yn dilyn ystyriaeth i'r atebion i'r ymgynghoriad diweddar a thrafod rhagarweiniol gyda'r Comisiwn 'rwyf wedi penderfynu gwneud nifer o newidiadau i strwythur arfaethedig y rhaglenni newydd. Mae'r newidiadau yma yn gosod pwyslais cryfach ar gefnogaeth i bobl ifanc o fewn y rhaglen ESF drwy gynnwys Blaenoriaeth ychwanegol sy'n canolbwyntio ar gefnogi eu hintegreiddiad i mewn i gyflogaeth. Yr ydym hefyd yn crybwyll cynyddu'r nifer o Flaenoriaethau yn y rhaglen Cydgyfeirio ERDF o dri i bump. Mae'r newidiadau yma'n bennaf i wneud a chyflwyniad, ond maent yn cynnwys creu blaenoriaeth ychwanegol ar gyfer Ymchwil a Datblygu, ac Arloesi ac i gynnwys Thema newydd sy'n gysylltiedig ag Isadeiledd strategol (yn cynnwys safleoedd ac adeiladau).

Mae strwythur newydd Blaenoriaethau'r Rhaglenni Cydgyfeirio wedi ei atodi.

Yn ddiffuant gyda chyfarchion y Tymor!

Rhodri

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 5111
Ffacs * Fax 029 2089 8198
rhodri.morgan@wales.gsi.gov.uk

**RHAGLEN CYDGYFEIRIO - CRONFA DDATBLYGU RHANBARTHOL EWROPEAIDD (ERDF)**

BLAENORIAETH 1 (ERDF): ADEILADU'R ECONOMI SY'N SEILIEDIG AR WYBODAETH
Thema 1: Hybu Ymchwil a Datblygu, Technoleg ac Arloesi
Thema 2: Cymdeithas wybodaeth i bawb a seilwaith TGCh

BLAENORIAETH 2 (ERDF): GWELLA CYSTADLEURWYDD BUSNES
Thema 1: Hyrwyddo entrepreneuriaeth a chefnogi twf busnes, gan gynnwys cymorth allforio
Thema 2: Gwella mynediad i gyllid busnes

BLAENORIAETH 3 (ERDF): DATBLYGU ISADEILEDD STRATEGOL AR GYFER ECONOMI FODERN
Thema 1: Trafnidiaeth gynaliadwy
Thema 2: Isadeiledd strategol (yn cynnwys safleoedd ac adeiladau, isadeiledd addysgol, porthladdoedd ac ati)

BLAENORIAETH 4 (ERDF): CREU AMGYLCHEDD BUSNES FFAFRIOL
Thema 1: Ynni Cynaliadwy
Thema 2: Mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol, isadeiledd amgylcheddol yn cynnwys rheolaeth gwastraff a risg llifogydd i dwf economaidd
Thema 3: Amgylchedd ar gyfer twf – hybu potensial yr amgylchedd gan gynnwys dyfrffyrdd morwrol a mewndirol.

BLAENORIAETH 5: ADEILADU CYMUNEDAU CYNALIADWY
Thema 1: Adfywio ffisegol (gan gynnwys adnewyddu canol tref)
Thema 2: Datblygu economaidd cymunedol (gan gynnwys menter gymdeithasol)

**RHAGLEN CYDGYFEIRIO - GRONFA GYMDEITHASOL EWROP (ESF)**

BLAENORIAETH 1: DARPARU'R SGILIAU SYDD EU HANGEN AR GYFER CYFLOGAETH I BOBL IFANC
Thema 1: Taclo is-gyrhaeddiant
Thema 2: Codi lefel sgiliau ac uchelgais

BLAENORIAETH 2 (ESF): CYNYDDU CYFLOGAETH A MYND I'R AFAEL AG ANWEITHGARWCH ECONOMAIDD
Thema 1: Cynorthwyo pobl i gyflogaeth gynaliadwy
Thema 2: Cynorthwyo pobl i aros mewn gwaith

Blaenoriaeth 3 (ESF): GWELLA LEFELAU SGILIAU A HYBLYGRWYDD Y GWEITHLU
Thema 1: Codi lefel sgiliau'r gweithlu
Thema 2: Sgiliau ar gyfer yr economi sy'n seiliedig ar wybodaeth
Thema 3: Hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol mewn cyflogaeth

BLAENORIAETH 4 (ESF): CREU'R CYSYLLTIADAU – MODERNEIDDIO A GWELLA ANSAWDD EIN GWASANAETHAU CYHOEDDUS
Thema 1: Gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithredu mwy effeithiol
Thema 2: Gwella gallu sectorau'r gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau o safon uwch

**TRANSLATION**

Ein cyf/Our ref: MB/FM/0755/06

Alun Ffred Jones AM
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff

December 2006

**Convergence 2007 – 2013 Programme**

I advised you on 5 December that I would respond in writing to your supplementary question to OAQ 2130 about the structure and implementation of the new Convergence Programmes for West Wales & the Valleys.

My officials are continuing to work with partners on the detailed arrangements for using the Wales Spatial Plan and Strategic Frameworks to help to ensure that Convergence resources are focused in ways which address needs and opportunities and maximise impact. We intend to utilise the considerable expertise that has been built up over the 2000–2006 European Structural Fund programme period. It is our intention, however, to ensure that our implementation arrangements are fully integrated and assist in delivering our strategic goals for West Wales and the Valleys in line with the Lisbon strategy for Growth and Jobs.

We therefore propose to have separate Sustainable Regeneration Strategic Frameworks in each Spatial Plan Area. These frameworks will be co-ordinated by the Spatial Plan Area Groups. Partners have welcomed our proposals to establish, with the help of Structural Fund Technical Assistance, European Spatial Support Teams that will operate at a Spatial Plan area level. These teams will help to ensure that existing expertise is utilised to maximum effect. A Task and Finish Group of the Programme Management Workstream, with representation from all the key sectors, will be established shortly to take forward these proposals.

Following consideration of the responses to the recent public consultation and preliminary discussions with the Commission, I have decided to make a number of changes to the proposed structure of the new programmes. These changes place a stronger emphasis on support for young people within the ESF programme through the inclusion of a separate priority focusing specifically on supporting their integration into employment. We are also proposing to increase the number of priorities in the ERDF Convergence programme from three to five. These changes are largely presentational, but include the creation of a separate priority for R&D and innovation and the inclusion of a new theme linked to investments in strategic infrastructure (incl. strategic sites and premises).

The new structure of the Convergence Programmes is attached.

## ERDF CONVERGENCE PROGRAMME

ERDF PRIORITY 1: BUILDING THE KNOWLEDGE BASED ECONOMY
Theme 1: Fostering research, innovation and technology
Theme 2: Information society for all and ICT infrastructure

ERDF PRIORITY 2: IMPROVING BUSINESS COMPETITIVENESS
Theme 1: Promoting entrepreneurship and supporting growth businesses, including export assistance
Theme 2: Improving access to business finance

ERDF PRIORITY 3: DEVELOPING THE STRATEGIC INFRASTRUCTURE FOR A MODERN ECONOMY
Theme 1: Sustainable transport
Theme 2: Strategic infrastructure (includes sites and premises, educational infrastructure, ports, etc)

ERDF PRIORITY 4: CREATING AN ATTRACTIVE BUSINESS ENVIRONMENT
Theme 1: Renewable energy
Theme 2: Environmental risk management, environmental infrastructure including waste management and flood risk
Theme 3: Environment for Growth – promoting the potential of the environment including maritime and inland waterways

ERDF PRIORITY 5: BUILDING SUSTAINABLE COMMUNITIES
Theme 1: Physical regeneration (including town centre renewal)
Theme 2: Community economic development (including social enterprise)

## ESF CONVERGENCE PROGRAMME

ESF PRIORITY 1: EQUIPPING YOUNG PEOPLE WITH THE SKILLS NEEDED FOR EMPLOYMENT
Theme 1: Tackling under-achievement
Theme 2: Raising skills and aspirations

ESF PRIORITY 2: INCREASING EMPLOYMENT AND TACKLING ECONOMIC INACTIVITY
Theme 1: Helping people into sustainable employment
Theme 2: Helping people to remain in work

ESF PRIORITY 3: IMPROVING SKILL LEVELS AND THE ADAPTABILITY OF THE WORKFORCE
Theme 1: Raising the skills base of the workforce
Theme 2: Skills for the knowledge economy
Theme 3: Promoting gender equality in employment

ESF PRIORITY 4: MAKING THE CONNECTIONS: MODERNISING AND IMPROVING THE QUALITY OF OUR PUBLIC SERVICES
Theme 1: Transforming public services through more effective collaborative working
Theme 2: Building the capacity of public service sector to delivery higher quality services